# Gweddïau:
## Wythnos Cymorth Cristnogol

**Gweddi mewn cyfnod o hunan ynysu**

‘Dw i'n hollol sicr fod dim byd yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth ei gariad e. Dydy marwolaeth ddim yn gallu, na'r un profiad gawn ni mewn bywyd chwaith. Dydy angylion ddim yn gallu, na phwerau ysbrydol drwg … Na, does dim yn y bydysawd yma greodd Duw yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yn ein Harglwydd ni, y Meseia Iesu!’ (Rhufeiniaid 8:38-39)

Dduw'r nefoedd a’r ddaear,

ar yr adeg hon o hunan ynysu,

ar wahân i’n ceraint

yn bell oddi wrth ffrindiau

i ffwrdd o gymdogion,

diolch nad oes dim

yn yr holl greadigaeth,

ddim hyd yn oed y Coronafirws,

sy’n gallu ein gwahanu ni oddi wrth

dy gariad di.

A bydded i’th gariad diddarfod di

barhau i gael ei rannu

trwy garedigrwydd dieithriaid

yn gofalu am ei gilydd,

a chymdogion ymhell ac agos,

a phawb yn cydnabod eu breuder,

pob un ohonom yn ddiolchgar am bob anadl,

ac yn fodlon i bawb arall hefyd

dderbyn rhodd bywyd llawn ac iach.

Cadw ni yn d’ofal.

Amen.

**Gweddi dros weithwyr iechyd ym mhobman**

Dduw adferiad ac iachâd,

diolch am weithwyr iechyd ym mhobman,

sy’n caru’n aberthol yn y dyddiau heriol hyn

gan roi lles eraill o flaen eu lles eu hunain

yn cadw draw oddi wrth deulu a ffrindiau

yn cysuro’r gofidus a’r galarus

yn calonogi’r pryderus a’r bregus

yn gweithio i iachau ac adfer pobl sâl.

Bydd yn dywysydd, yn gryfder, doethineb a gobaith iddynt.

Gweddïwn y bydd rhai mewn awdurdod yn eu gwarchod

gan gyflenwi’r offer diogel sydd ei angen arnynt

ac i’w hymroddiad gael ei gydnabod gyda diolch dwfn

wrth iddynt ddychwelyd adref yn lluddedig.

A gweddïwn dros weithwyr iechyd dros y byd, sydd â’u hoffer diogelwch bob amser yn brin, ac nid nawr yn unig.

Bydded i’r dyddiau rhyfeddol hyn ein harwain i ddealltwriaeth o’r newid sydd ei angen yn ein byd,

newid fydd yn sicrhau ymdrech go iawn i fynd i’r afael

ag anghyfiawnder sy’n golygu y penderfynir disgwyliad oes gan ddaearyddiaeth,

a’n bod i gyd yn perthyn i’r un byd

ac yn gweithio tuag at yr un nod.

Amen.

**Gweddi cyn tawelwch**

Dduw cariadus,

ceisiwn dy bresenoldeb

yn y tawelwch y tu hwnt i eiriau

yn edrych tuag atat am gysur,

nerth, diogelwch a chalonogaeth,

yn anadlu diolchgarwch

yn dal gafael mewn gobaith

yn ymddiried gyda ffydd

mai ti sy Dduw o hyd

yng nghanol yr holl helbul,

y bydd dy gariad yn cyrraedd

hyd eithaf y ddaear.

Bydd gyda ni nawr.

(Tawelwch)

Amen.

**Gweddi dros yr eglwys**

Bydded i'th gariad nad yw'n darfod

gryfhau'r gwan

annog yr ofnus

tawelu'r pryderus

iachau'r sâl

trwy dy eglwys –

dy ddwylo, wedi eu golchi'n lân,

a'th draed ar y ddaear –

yn bell ond dal yn bresennol

yn rhithiol ond mewn cysylltiad

ar wahân ond yn dal i helpu.

Dduw yn dy drugaredd,

gwrando ein gweddi.

Amen.

**Gweddi yn y pandemig**

'Mae cariad bob amser yn amddiffyn; mae bob amser yn credu; bob amser yn gobeithio; bob amser yn dal ati. Fydd cariad byth yn darfod.' (1 Corinthiaid 13:7-8)

Dduw cariadus,

cryfhau ein bod

gyda'r cariad sy'n cynnal popeth

hyd yn oed pwysau'r pandemig hwn

hyd yn oed y chwilio manwl am symptomau

a'r disgwyl hir iddynt fynd heibio,

yn gwylio a disgwyl,

gan gadw'n llygaid arnat ti,

a gofalu am ein cymdogion

ymhell ac agos.

Gosod yn ein henaid brau

y gred a'r gobaith fod popeth

yn bosibl gyda dy gariad creadigol

y gall dieithriaid ddod yn ffrindiau

y gallu gwyddoniaeth ganfod yr atebion

y gall adnoddau gael eu rhannu'n deg

fel bod pawb, ym mhobman, yn cael yr hyn sydd ei angen,

a bod dy gariad, na ŵyr ddim am ffiniau,

yn bwrw allan pob ofn a hunanoldeb sy'n rhannu.

Bydded i'th gariad sy byth yn darfod

ein cysuro, ein nerthu a'n harwain

er lles pawb ac er

gogoniant i Dduw.

Amen.